**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

6 Mawrth 2025

Annwyl Jeremy

Mae'r Pwyllgor wedi cael gohebiaeth gan gynrychiolydd o'r Ymgyrch i Gadw'r GIG yn Onest yn galw am sefydlu gwasanaeth annibynnol i ymchwilio i gwynion am ofal a ddarperir gan y GIG.

Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol mai'r broses bresennol ar gyfer codi a thrin cwynion yn GIG Cymru yw'r broses Gweithio i Wella. Gwnaethoch gynnal ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r broses hon y llynedd a chyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ym mis Rhagfyr a ddywedodd fod yr adborth a gafwyd yn "yn glir nad yw'r broses bresennol, naill ai yn ei dyluniad neu ei gweithrediad, yn gweithio i lawer iawn o'r rhai sydd â rheswm dros wneud cwyn". Gwnaethoch ddweud y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar ddatblygu rheoliadau diwygio a chanllawiau, ac ar ddatblygu cynllun gweithredu'r GIG i wella'r system.

Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau a gymerir i wella'r ffordd y mae GIG Cymru yn ymdrin â chwynion.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.